**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL**
Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd Dydd Llun, 21 Mehefin 2021 am 2.00 pm ym Rhithwir.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd J Rosser Y Cynghorydd G Hughes
Mr C Coppock Ms M Dunning

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Ms W Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Ms A Gould, Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd

**1 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-22.

**2 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:-

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher wedi datgan buddiant mewn perthynas ag eitem 4 - "Rydw i'n Gyfarwyddwr ar yr YMCA."

**3 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen.

**4 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr

2021 yn rhai cywir

**5 Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol 2021-22**

Cyflwynodd y Swyddog Craffu ac Ymchwil i Aelodau adroddiad sy'n ymwneud â'r Rhaglen Waith i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad yma'n rhannu gwybodaeth ynghylch y materion allweddol a fydd yn cael eu trafod â'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2021/2022 . Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod y Rhaglen Waith yn ddogfen newidiol y mae modd ei diwygio trwy gydol y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw flaenoriaethau sy'n newid.

Cafwyd trafodaeth, a holodd Mr Coppock, yr Aelod Cyfetholedig, p'un a oedd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac mewn gwahanol leoliadau ledled y Fwrdeistref Sirol. Pwysleisiodd y Swyddog Craffu ac Ymchwil i Aelodau pe byddai eitem benodol ar yr agenda yn gofyn am ymweliad safle, yna gallai hyn gael ei drefnu yn unol â hynny.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Flaenraglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-22.

**6 Y Newyddion Diweddaraf am y Miwni**

Rhoddodd Mr Richard Hughes, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â throsglwyddo ased cymunedol Canolfan Gelf y Miwni i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.

Cafodd Aelodau’r Grŵp Llywio gyflwyniad mewn perthynas â’r throsglwyddo'r Miwni, a oedd yn cynnwys nifer o ffotograffau mewn perthynas â dyluniad y Miwni wrth symud ymlaen. Pwysleisiwyd bod angen i'r lleoliad gadw ei hunaniaeth a'i wreiddiau yn y gymuned ond hefyd sefydlu safle newydd yn y farchnad. Nodwyd mai uchelgais y Cyngor yw dathlu asedau diwylliannol ledled y Fwrdeistref Sirol sy'n cynnig cyfle am dwf. Cafodd yr Aelodau gwybod bod y dull o weithio mewn partneriaeth rhwng CBSRhCT ac Awen yn glir yn sgil y cais i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU.

Cafwyd trafodaethau a dymunodd y Cadeirydd ddiolch i Awen am roi cyflwyniad mor fanwl i'r Aelodau. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod yr Awdurdod Lleol yn dal i aros am ganlyniad y cais i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU. Nododd y Cadeirydd fod y Miwni yn adeilad eiconig a bod y sylfeini ar waith iddo gael ei ddatblygu fel adeilad allweddol ar gyfer twf diwylliannol yn y gymuned.

Parhaodd y trafodaethau a holodd Aelod beth fydd yn digwydd i Ffenestr y Rhosyn yn y Miwni. Dywedodd Richard Hughes wrth yr Aelodau fod Ffenestr y Rhosyn yn nodwedd dreftadaeth allweddol o'r Miwni a'i bod yn taflu goleuni yn y festri a rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y bydd hyn yn cael ei gadw.

Roedd Aelod arall wedi canmol y cyflwyniad gan nodi y byddai'n hwb anhygoel i ddiwylliant yng Nghymoedd De Cymru. Holodd yr Aelod a fyddai'r trefniadau o ran seddi yn aros fel yr oedden nhw, a fydd oriel yr arcêd yn cael ei defnyddio fel oriel gelf, a fydd mynediad i'r anabl yn rhan o strwythur yr adeilad a gofynnodd a yw Awen wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r YMCA mewn perthynas â'i weledigaeth ar gyfer y Miwni. Dywedodd Richard Hughes wrth yr Aelodau y bydd seddi y gellir eu tynnu'n ôl yn yr awditoriwm a balconi sefydlog.

Pwysleisiodd Richard Hughes y bydd mynediad i'r anabl yn rhan allweddol o'r adeilad newydd, yn enwedig o ran gosod lifftiau ym mhob rhan o'r adeilad ac ystafell newid ddynodedig. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymuned wybod i'r Aelodau y bydd cyfarfod o sefydliadau diwylliannol yn ardal Pontypridd, mae hyn yn cynnwys yr YMCA. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sicrwydd i'r Aelodau fod y Cyngor yno i hwyluso'r cyfarfodydd hyn a bod modd adrodd yn ôl i'r Grŵp Llywio mewn perthynas â materion allweddol ar y flaenraglen waith. Rhoddodd Ceri Evans, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, wybod i'r Aelodau y bydd rhaglenni a gynhelir yn y Miwni yn ategu'r asedau diwylliannol sydd eisoes ym Mhontypridd gan bwysleisio'r angen i rannu adnoddau ac i weithio mewn partneriaeth ag eraill. Dywedodd yr Aelod wrth Awen y byddai Trafnidiaeth Cymru yn bartner allweddol i'w ystyried. Diolchodd Ceri Evans i'r Aelod gan bwysleisio i'r Grŵp y byddai Awen yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd ganddyn nhw wrth symud ymlaen.

Cafwyd trafodaethau a holodd Aelod sut y byddai'r Gronfa Codi'r Gwastad yn gweithio mewn perthynas â'r Miwni. Dywedodd Richard Hughes wrth y Grŵp Llywio y bydd y cais, os yn llwyddiannus, yn darparu rhagor o gyfleoedd i ddatblygu'r Miwni a bod modd parhau gyda'r gwaith o ddarparu gweithgareddau wrth aros am ganlyniad y cais. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Grŵp Llywio bod cais Cronfa Codi'r Gwastad y Cyngor wedi'i gymeradwyo gan Gabinet CBSRhCT ac y gallai swyddogion o'r Adran Adfywio fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol i drafod y cais yn fanylach, os yw'n llwyddiannus?

Nododd Mr Chris Coppock, yr Aelod Cyfetholedig, ei fod yn falch o weld bod yr Awdurdod Lleol y tu ôl i adfywiad diwylliannol Pontypridd. Fodd bynnag, holodd yr Aelod Cyfetholedig am y model busnes ar gyfer y Miwni ac eglurodd yr hoffai weld ffigurau terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Llywio. Dywedodd Richard Hughes wrth y Grŵp Llywio na fyddai Awen wedi cymryd rhan pe bai'r model busnes ar gyfer y Miwni yn rhy hapfasnachol. Nododd fod y contract ar waith dros y 5 mlynedd nesaf i sicrhau canlyniadau i Bontypridd a phwysleisiodd pa mor gefnogol y mae CBSRhCT wedi bod mewn perthynas â'r prosiect yma. Nododd Richard Hughes, er ei bod hi'n bwysig canolbwyntio ar faterion masnachol, bod y prosiect hwn hefyd yn gyfle i ganolbwyntio ar y gymuned. Pwysleisiodd Ceri Evans, Cyfarwyddwr Busnes Awen, fod y cynllun busnes a gyflwynwyd i GBSRhCT yn mynd trwy broses wirio drylwyr a'i fod yn destun craffu gan nifer o wahanol onglau. Pwysleisiodd y Cadeirydd hyn trwy bwysleisio bod llawer o waith gwirio diwydrwydd dyladwy wedi'i wneud gan swyddogion RhCT.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r adroddiad.

**7 Diweddariad gan Gydlynydd Celfyddydau ac Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad gan Esyllt George, cydlynydd Iechyd a'r Celfyddydau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) mewn perthynas â'i strategaeth newydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-22.

Cafodd yr Aelodau wybod am bwysigrwydd gwaith partneriaeth a chynhwysiant a'r angen i wella ymrwymiad ac ymgysylltiad y gymuned. Cafodd yr Aelodau wybod bod gweithio mewn partneriaeth wedi arwain at ragnodi cymdeithasol a llwybrau lles yn y gymuned ledled RhCT. Bydd y strategaeth ar gyfer 2022-2025

yn parhau i gryfhau gwaith partneriaeth rhyngddisgyblaethol, amrywiol a chreadigol ac i weithio gyda model o ofal cyfannol i gleifion. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ariannu swydd Cydlynydd Iechyd a'r Celfyddydau o hyn ymlaen gan gydnabod gwerth y rôl yma o ran darparu'r gwasanaeth i staff a chleifion. Mae'r swydd yma'n cael ei hariannu gan CCC ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaethau a dymunodd y Cadeirydd ddiolch i Esyllt am roi cyflwyniad mor fanwl i'r Grŵp Llywio. Rhoddodd Reolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant wybod i'r Aelodau bod meysydd gwasanaeth RhCT yn cwrdd yn aml â sefydliadau'r trydydd sector ac wedi canmol dull partneriaeth y Bwrdd Iechyd.

Nododd Aelod arall pa mor bwysig fydd y dull partneriaeth hwn yn dilyn pandemig covid a nododd pa mor falch oedd hi o weld swydd Cydlynydd Iechyd a'r Celfyddydau'r Bwrdd Iechyd. Holodd yr Aelod p'un a oedd y Bwrdd Iechyd wedi ystyried mannau awyr agored yn yr ysbytai i ddarparu mannau agored tawel i gleifion ac ymwelwyr. Rhoddodd Esyllt George, Cydlynydd Iechyd a'r Celfyddydau BIPCTM, wybod i'r Grŵp Llywio bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd ym Mhontypridd h.y. creu unedau yn y gymuned rhwng yr YMCA, Parc Ynysangharad ac ati. Pwysleisiodd y Cydlynydd Iechyd a'r Celfyddydau'r posibilrwydd o sefydlu is-grwpiau gwahanol ar y pwnc ac i gysylltu â'r Rheolwr Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yn CBSRhCT i ddatblygu hyn ymhellach.

Nododd yr aelod cyfetholedig, Mr Chris Copock, pa mor galonogol yw'r strategaeth hon a nododd pa mor bwysig oedd delweddau creadigol wrth gefnogi iechyd a lles yn y gymuned.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i Esyllt George a Claire Nelson am ddod i'r cyfarfod a phwysleisiodd y gallwn drafod yr eitem hon eto yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad.

**8 Gwasanaethu ein Cymunedau yn ystod Pandemig COVID-19**

Rhannodd y Rheolwr Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yr wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau am Raglen waith Gwasanaeth y Celfyddydau RhCT a gynhaliwyd o fis Ionawr 2021 hyd yn hyn.

Cafodd yr Aelodau wybod bod Theatrau RhCT yn parhau i fod ar gau i'r cyhoedd ac mae cynlluniau cyfalaf a chynlluniau gwella TGCh yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Pwysleisiodd y Rheolwr Diwylliant a'r Rheolwr fod y cynnig cyfranogol, 'Cymerwch Ran', yn parhau i gael ei ddarparu yn y gymuned. Mae Carfan y Celfyddydau a Diwydiannau Creadigol wedi parhau i gefnogi plant a phobl ifainc trwy gynnig darpariaeth ar-lein yn achos nifer o feysydd y celfyddydau. Cafodd yr Aelodau wybod hefyd bod Gwasanaeth y Celfyddydau yn gweithio mewn partneriaeth â Taking Flight, Flossy a Boo, Plant y Cymoedd a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru wrth gyflwyno pedwar prosiect Cysylltu a Ffynnu yn RhCT. Pwysleisiwyd y bydd Gwasanaeth y Celfyddydau yn ystyried ei flaenoriaethau wrth symud ymlaen ac yn deall ei gyd-destun gweithredu o fewn y Cyngor a Sector y Celfyddydau a Diwylliant yng Nghymru.

Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i'r Rheolwr Diwylliant Strategol a'r Celfyddydau am ddarparu adroddiad mor gynhwysfawr. Nododd y Cadeirydd y gwaith rhagorol y mae'r gwasanaeth yn ei wneud mewn perthynas â'r Eisteddfod sydd

ar y gweill a nododd bod rhaid canmol y gwasanaeth am ymgorffori’r gwaith yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad.

**9 Materion Brys**

Doedd dim mater arall i'w drafod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.43 pm**

**Y Cynghorydd R. Lewis**
**Cadeirydd.**